

2019/2020

Adroddiad Sefydliadol #4

Y cyfnod dan sylw: 1 Ionawr – 31 Mawrth 2020



Cynllun Mentora 2020 yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd



Llenyddiaeth
Cymru
Literature
Wales

Datganiad am COVID-19

Fel y rhan fwyaf o sefydliadau celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru a'r tu hwnt, mae'r digwyddiadau diweddar wedi amharu ar gynnydd Llenyddiaeth Cymru wrth gyflawni targedau 2019/2020.

Er inni benderfynu cau ein swyddfeydd yng Nghaerdydd a Chanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd, a gohirio'r holl weithgareddau roeddem yn eu darparu'n uniongyrchol a fyddai wedi golygu cyswllt wyneb yn wyneb, roedd ein hymateb i'r sefyllfa ansicr yn golygu bod modd parhau i ddarparu cyfran sylweddol o'n gwasanaethau.

Er enghraifft, ym mis Mawrth yn unig, edrychwyd ar wefan **Sialensau Wythnosol y Beirdd Plant 1000 o weithiau**, gyda ffigurau ymgysylltu yr un mor drawiadol ar y cyfryngau cymdeithasol. Cafodd @Laureate_Wales **42K o argraffiadau** ac **edrychwyd ar y proffil 2,000 o weithiau'n fwy** na chyfartaledd misol y proffil. Cafodd @BarddPlant dros **22.5K o argraffiadau** a bu cynnydd o **52% yn sawl gwaith y cafodd y proffil ei grybwyll**.

At hynny, arweiniodd lansiad ein rownd newydd o **Gomisiynau i Awduron** at ymweliadau â'n gwefan gan dros **2,300 o unigolion** i gael rhagor o wybodaeth, ac aeth **119 o unigolion ati i ymwneud** â'r ffurflen gais. Cawsom **51 o geisiadau cymwys** a byddwn yn **dyfarnu 10 o gomisiynau i awduron** o amrywiaeth o gefndiroedd a chyfnodau yn eu gyrfaedd.

Yn nechrau 2020/2021 bydd Llenyddiaeth yn parhau i addasu gan ganfod y dulliau mwyaf effeithiol a chynaliadwy o gefnogi awduron a diwydiannau creadigol Cymru, a sicrhau bod llenyddiaeth yn parhau i rymuso, gwella a chyfoethogi bywydau.

Cynnwys

Uchafbwyntiau

Uchafbwyntiau Gweithredol, Sefydliadol a Gweithgarwch..... 4

Effaith Sefydliadol

Y newid hirdymor y byddwn yn ei gynhyrchu i Gymru..... 6

Canlyniadau Sefydliadol

Y newidiadau tymor canolig y byddwn yn eu cynhyrchu ar gyfer ein cleientiaid..... 6

Allbynnau Sefydliadol

Prif Nodau Llwyddiant
mewn perthynas â'n Colofnau Gweithgaredd..... 7

Mesurau Llwyddiant

mewn perthynas â'n Blaenoriaethau Gweithredu..... 10

Gofynion Cyllido Ychwanegol Cyngor Celfyddydau Cymru

Adolygiad Sefydliadol..... 17

Adnewyddu Nant..... 18

Gwerthuso

Gwersi Sefydliadol a Gweithredol i'w Dysgu 19

Gwersi i'w Dysgu o'n Gweithgareddau..... 20

Sut i ddarllen yr adroddiad hwn

- Mae'r adroddiad hwn yn gyfuniad o brofforma **Gofynion Cyllido Cyngor Celfyddydau Cymru** (sy'n canolbwyntio ar ein tri Mesur Llwyddiant Allweddol a dwy eitem ychwanegol) a'n **gofynion adrodd mewnol** ar y canlyniadau a'r effaith sefydliadol rydym yn gobeithio eu cyflawni, ynghyd â'n **Nodau Llwyddiant Gweithredol** yn ogystal â'n **Nodau Llwyddiant gweithredol a Gwersi** *newydd* i'w **Dysgu**.
- Er ei fod yn canolbwyntio ar **gynnydd rhwng 1 Awst a 30 Medi 2019**, mae hefyd yn cynnig cynnydd cronedig ers 1 Ebrill 2019.
- Mae'r targedau sydd wedi'u cynnwys yn berthnasol i'r **flwyddyn gyntaf** (2019/2020) o'r pedair blynedd yng Nghynllun Strategol 2019-2023. Mae'r targedau hyn yn cynrychioli ein dyheadau, mewn perthynas â'r prosiectau yn ein rhaglen weithredol a'n gweithgarwch presennol, yn ogystal â'n tueddiadau demograffig, gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol presennol. Mae rhai o'n prosiectau'n ddibynnol ar sicrhau cyllid allanol ychwanegol, ac mae'n bosib y bydd rhai yn cael eu haddasu neu'n dod yn annichonadwy yn ystod y broses ddatblygu. Bydd ffactorau y tu hwnt i'n rheolaeth uniongyrchol yn effeithio ar rai prosiectau. Am y rhesymau hyn, **rhagamcan o sut bydd llwyddiant yn edrych yw'r targedau hyn, ac mae'n bosib y byddant yn destun adolygiad yn seiliedig ar resymeg**.
- Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn derbyn yr adroddiad hwn, ynghyd ag un arall ar lefel prosiect mwy manwl, sy'n canolbwyntio ar gynnydd misol tuag at Ddangosyddion Perfformiad Allweddol*. Gall y Bwrdd Rheoli wneud cais i weld y ddogfen yn ôl yr angen, ac mae'n bosib y byddant yn dewis gwneud hynny'n achlysurol fel arfer da.

*Sylwer – mae adroddiad misol cyntaf yr Uwch Dîm Rheoli wrthi'n cael ei greu ar gyfer mis Mawrth 2020.

Uchafbwyntiau

Sefydliadol

- **Llenyddiaeth Cymru yn addasu ac yn ymateb i COVID-19** drwy lansio cynlluniau newydd gan gynnwys Comisiynau i Awduron (10 x £500) sy'n rhoi cyllid i awduron llawrydd mewn cyfyngder.
- **Adolygiad Sefydliadol** wedi'i gwblhau'n llwyddiannus o dan arweiniad y Prif Weithredwr, gyda chymorth y staff a'r Bwrdd.

Gweithgareddau

- Cyhoeddi enwau'r rhai a lwyddodd o dan **Gynllun Ysgoloriaethau Awduron a Mentora 2020**, a'r sector yn rhoi cefnogaeth ac anogaeth dda. O'r 186 o geisiadau, dewiswyd 25 awdur o gefndiroedd amrywiol i gael cymorth gan Llenyddiaeth Cymru.
- Roedd y **Diwrnodau Hyfforddi i Awduron** yng Nghaerdydd a Chanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd yn boblogaidd, a chafwyd adborth cadarnhaol gan y rheini a oedd yn bresennol.
- Cyhoeddi enwau beirniaid **Llyfr y Flwyddyn** 2020 ynghyd â lansio categori newydd Plant a Phobl Ifanc.
- Croesawu disgyblion o Ysgol Talysarn a'u teuluoedd i **Ganolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd** i weithdy ar Ddydd Gŵyl Dewi.
- Prosiectau **Llên er Lles** yn cael eu darparu'n llwyddiannus, gan gynnwys y prosiect 'Siaradwch â Mi' yn dathlu creadigrwydd a chydlyniant cymdeithasol gyda thrigolion Pontypridd a ffoaduriaid o Syria.
- Cymdeithas Bêl-droed Cymru a Llenyddiaeth Cymru yn lansio Cystadleuaeth Farddoniaeth Cymru Ewro 2020 (wedi'i gohirio) fel rhan o brosiectau'r **Children's Laureate Wales** a **Bardd Plant Cymru**.

Gweithredol

- Llunio **Asesiad Risg COVID-19** gyda chymorth yr holl staff i gyflwyno camau rheoli clir a chryno er mwyn osgoi niwed i'r sefydliad cymaint ag y bo modd. Bydd hwn yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd dros y misoedd nesaf.
- Diweddarau **Cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2020-2023** er mwyn cryfhau ein Blaenoriaeth Dactegol ym maes Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb o ganlyniad i sawl gwers a ddysgwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- Llenyddiaeth Cymru yw un o'r pum **Partner Cleient newydd i gael buddsoddiad ariannol** gan Ymddiriedolaeth Rhys Davies ar ôl gwneud cais llwyddiannus am gyllid.



“Poems are to be shared,
they find the people who need them,
and the award has unraveled a wider
platform for my words...”

Alex Wharton

Dethol beirdd llwyddiannus ar gyfer **Gwobr Rising Stars Cymru 2020**, a'r enillydd wedi llofnodi cytundeb â chyhoeddwr.



Dewis 25 o awduron llwyddiannus i gael cymorth cynhaliath fel rhan o **Gynllun Ysgoloriaethau Awduron a Mentora 2020**.



Cwrs Ysgrifennu i Oedolion Ifanc 2020

Cyflwyno'r cwrs Cymraeg newydd, Ysgrifennu i Oedolion Ifanc yng **Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd**, ac 11 o egin awduron yn bresennol.



Daeth 10 o egin awduron ar gwrs wythnos pwrpasol yn Nhŷ Newydd o dan **Gynllun Mentora 2020**.



Cyhoeddi categori newydd Plant a Phobl Ifanc, ynghyd ag enwau'r beirniaid, ar gyfer **Gwobr Llyfr y Flwyddyn 2020**



Llenyddiaeth Cymru'n cynnig **cymorth hwyluso** i bartner newydd, Penguin Random House, fel rhan o'i gynllun 'WriteNow'



Y **Beirdd Plant** yn lansio sialensiau wythnosol i annog plant i gael hwyl wrth ysgrifennu'n greadigol gartref.



Cylchgrawn newyddion yn Aberystwyth yn cynnwys erthygl am effaith prosiect a gafodd gyllid drwy **Llên er Lles**.



Prosiectau'r **Children's Laureate for Wales** a **Bardd Plant Cymru** yn cydweithio â Chymdeithas Bêl-droed Cymru i greu cystadleuaeth farddoniaeth i blant.

Effaith Sefydliadol a Chanlyniadau

	Targed ar gyfer 31 Mawrth 2020	Cynnydd Presennol 1 Ionawr – 31 Mawrth 2020	Dull casglu data
Effaith Sefydliadol	Byddwn ar ein ffordd i rymuso, gwella a goleuo bywydau ein cleientiaid, gan gyfrannu at eu llesiant ehangach a llesiant cymdeithas, economi a diwylliant Cymru	Mae canlyniadau sylfaenol rownd gyntaf ein Arolwg Hydredol 2019-2022 wedi’u casglu, ac mae’r data eisoes wedi datgelu rhai pethau diddorol. I grynhoi, dywedodd yr holl gleientiaid, bron iawn, eu bod wedi meithrin mwy o hunanhyder wrth ymwneud â chyfle neu wrth ddarparu cyfle a drefnwyd neu a gefnogwyd gan Llenyddiaeth Cymru. Mae’n ymddangos bod y cyfrifoldeb dros gael rôl hwyluso/rôl lysgenhadol yn galluogi awduron i gael ymdeimlad o fod “yn awdur neu’n athro sy’n cael gwahoddiad i gynnal gweithdy”, ac yn eu galluogi i ystyried eu crefft “mewn gwedd fwy proffesiynol, [sydd wedi] rhoi... amser imi weithio ar fy sgiliau wrth gynnal gweithdai”.	Arolwg Hydredol 2019-22
Canlyniadau Sefydliadol	Bydd ein cleientiaid yn nesáu at gael: ▪ Gwell sgiliau siarad ac ysgrifennu ▪ Mwy o hunanhyder ▪ Rhagor o gyfleoedd gwaith ▪ Llai o bobl yn teimlo'n ynysig ▪ Risg is o salwch meddwl, a'r gallu i wrthsefyll salwch meddwl yn well ▪ Cyfle i ddarganfod bydoedd, athroniaethau a diwylliannau newydd ▪ Gwell gallu i ddangos empathi ▪ Gwell sgiliau amlieithog	Yn y naill arolwg a’r llall, roedd hanner y grŵp wedi gwneud cais am rolau newydd neu wedi gwneud mwy o ddatblygu proffesiynol o fewn 6 mis i ymwneud â Llenyddiaeth Cymru. At hynny, ers ymwneud â Llenyddiaeth Cymru am y tro cyntaf, roedd 8 o’r 10 awdur wedi cyflwyno’u gwaith i gystadlaethau ysgrifennu creadigol, wedi ennill gwobrau llenyddol, neu wedi cyhoeddi eu gwaith. Soniodd cleientiaid am eu lefelau creadigrwydd, gydag un yn benodol yn dweud bod ei “greadigrwydd yn sicr wedi cynyddu diolch i’r cyfleoedd a gefais gan Llenyddiaeth Cymru. Rydw i wedi gallu gwella fy arferion creadigol mewn ysgolion a rhoi cynnig ar weithgareddau gwahanol mewn gweithdai”. Ar y cyfan, teimlai’r rheini o gefndiroedd sydd wedi’u tangynrychioli nad oeddent wedi’u cynnwys gymaint â phobl eraill yn niwylliant Cymru, a hwy oedd y lleiaf tebygol o deimlo’n gyfforddus yn mynegi’u hunaniaeth ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol. Fodd bynnag, dywedodd un cleient fod “y Cynllun Rhoi Llwyfan i Awduron a gaiff eu Tangynrychioli yn sicr wedi fy annog i fod â hyder yn fy llais ac yn fy ngallu i roi rhywbeth yn ôl i’r gymuned”. Mae’r cyfranogwyr wedi cydnabod yn uniongyrchol bwysigrwydd y gefnogaeth a gafwyd gan staff Llenyddiaeth Cymru, gydag un cleient yn dweud bod “pob ymwneud â’r staff wedi bod yn galonogol, yn hwb, ac yn ddefnyddiol”. Mae tri chleient newydd wedi’u dewis i gymryd rhan yn Arolwg Hydredol 2020-2023.	6

Canlyniadau Sefydliadol

Prif Nodau Llwyddiant Gweithgaredd: **Cyfranogi**

Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2020	Cynnydd Presennol 1 Ionawr – 31 Mawrth	Cynnydd Cyffredinol 1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020	Dull casglu data
Mae cyfran o boblogaeth Cymru sy'n cymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol wedi cynyddu 0.6 pwynt canran i 8.8% erbyn 2022 , sy'n gyfwerth â 20,700 o bobl yn ychwanegol	Bydd Arolwg Omnibws Cyngor Celfyddydau Cymru o gyfranogiad yn y celfyddydau yn 2019 yn cael ei gyhoeddi ym mis Ebrill/Mai 2020. Efallai y bydd rhywfaint o oedi yn hyn o beth oherwydd pandemig COVID-19.	Fel y nodwyd i'r chwith.	Arolwg Omnibws Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfranogiad yn y celfyddydau
Mae o leiaf 106,000 o gyfranogwyr creadigol ac aelodau cynulleidfa yn ymgysylltu â'n gweithgarwch yn flynyddol	Yn ystod 1 Ionawr – 31 Mawrth 2020, bu 14,300 o gyfranogwyr creadigol ac aelodau o gynulleidfaoedd yn ymwneud â gweithgareddau Llenyddiaeth Cymru. Oherwydd COVID-19, gostyngodd y ffigur hwn ym mis Mawrth. Daeth ein prosiectau cyfranogi parhaol i ben hefyd.	Bu cyfanswm o 82,435 o gyfranogwyr creadigol ac aelodau o gynulleidfaoedd yn ymwneud â Llenyddiaeth Cymru yn 19/20.	Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau
Mae o leiaf 17% o'n gyfranogwyr creadigol yn arddel un neu fwy o Nodweddion ein Cleientiaid Targed.	Llenyddiaeth Cymru yn 19/20. Mae'r ffurflen Cydraddoldeb ac Amrywiaeth bellach wedi'i chwblhau ac wedi'i dosbarthu i sampl cynrychioladol o gyfranogwyr . Oherwydd COVID-19, mae nifer o'r gweithdai wedi'u gohirio. Rydym yn y broses o greu fframwaith i gasglu data gan y rheini sy'n ymwneud â'n comisiynau digidol.	Fel y nodwyd i'r chwith.	Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau a monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
Mae o leiaf 17 cyfranogwr creadigol yn cael eu cyfeirio at ein cyfleoedd datblygu awduron yn flynyddol.	Cafodd cyfanswm o 161 o gyfranogwyr creadigol eu cyfeirio at ein cyfleoedd datblygu i awduron yn ystod y cyfnod uchod. Er enghraifft, cafodd awdur sydd wedi'i dangynrychioli ac sydd wedi mynychu amryw o ddigwyddiadau sydd wedi'u darparu a'u cefnogi gan Llenyddiaeth Cymru ei annog i wneud cais am un o'n Comisiynau i Awduron, a bu'n llwyddiannus.	Yn ystod 19/20, cafodd 518 o gyfranogwyr creadigol eu cyfeirio at ein cyfleoedd datblygu i awduron.	Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau 7

Canlyniadau Sefydliadol

Prif Nodau Llwyddiant Gweithgaredd: **Datblygu Awduron**

Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2020	Cynnydd Presennol 1 Ionawr – 31 Mawrth	Cynnydd Cyffredinol 1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020	Dull casglu data
Rydym yn darparu o leiaf 140 o gyfleoedd creadigol a phroffesiynol ar gyfer egin awduron yn flynyddol	Rydym wedi darparu 70 o gyfleoedd creadigol a phroffesiynol i awduron ar ddechrau'u gyrfaedd . Er enghraifft, dewiswyd 11 o awduron i gymryd rhan yn ein cwrs newydd Cymraeg, Ysgrifennu i Oedolion, a drefnwyd ar y cyd â Chyngor Llyfrau Cymru, gyda Bethan Gwanas a Manon Steffan Ros yn diwtoriaid.	Mae 293 o gyfleoedd creadigol a phroffesiynol wedi'u darparu i gyd. Mae ein pwyslais ar awduron ar ddechrau'u gyrfaedd fel rhan o Gynllun Strategol 2019-2023 wedi ein galluogi i ehangu ein rhwydwaith a'n gwybodaeth am dalent i'w feithrin ymhlith y rheini a fydd yn cynrychioli ein diwylliant llenyddol yn y dyfodol.	Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau
Mae ein gwybodaeth datblygu awduron ar-lein yn cael o leiaf 5,000 o ymweliadau unigryw i'r tudalennau perthnasol yn flynyddol	Mae ein gwybodaeth ar-lein am ddatblygu awduron wedi cael ei gweld 10,659 o weithiau (y tudalennau unigryw a welwyd) yn ystod y cyfnod uchod.	I gyd, mae ein tudalennau datblygu awduron ar-lein wedi'u gweld 35,169 o weithiau (y tudalennau unigryw a welwyd), a gwelwyd cyfanswm o 31,562 o dudalennau yn 19/20. Bydd y data hyn, ynghyd â gwybodaeth am ddemograffeg a diddordebau cynulleidfaoedd, yn sail i ddatblygu ein prosiect Adnoddau a Gwybodaeth i Awduron.	Google Analytics
Darperir cefnogaeth barhaus i gyfanswm o 4 awdur ifanc (rhwng 16 a 30 oed) yn flynyddol	Mae 75 o awduron ifanc o dan 30 oed wedi cael cefnogaeth barhaus gan Llenyddiaeth Cymru ers mis Ionawr. Mae hyn yn cynnwys ffigurau o garfan Ysgoloriaethau Awduron a Mentora 2020 a'r rheini a fu'n ymwneud â chysiau a gweithgareddau yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd dros gyfnod estynedig o amser.	Mae 140 o awduron ifanc wedi elwa o gael cymorth parhaus gan Llenyddiaeth Cymru. Mae nifer o'r awduron hyn wedi'u canfod drwy ein prosiect gweithredol i ddod o hyd i dalent, neu o ganlyniad i'r rhwydwaith ehangach.	Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau

Canlyniadau Sefydliadol

Prif Nodau Llwyddiant Gweithgaredd: **Diwylliant Llenyddol Cymru**

Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2020	Cynnydd Presennol 1 Ionawr – 31 Mawrth	Cynnydd Cyffredinol 1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020	Dull casglu data
Mae o leiaf 15 awdur profiadol ac 17 darn o waith llenyddol yn rhan o brosiectau proffil uchel yn flynyddol	Bu 65 o awduron profiadol a 21 gwaith llenyddol yn rhan o brosiectau proffil uchel. Ym mis Chwefror 2020, cyhoeddodd Prif Weinidog Llywodraeth Cymru fod Ifor ap Glyn, Bardd Cenedlaethol Cymru, wedi cyrraedd y rownd derfynol yng nghategori diwylliant Gwobrau Dewi Sant 2020.	Bu cyfanswm o 250 o awduron profiadol a 244 gwaith llenyddol yn rhan o brosiectau proffil uchel gyda'r nod o hyrwyddo Diwylliant Llenyddol Cymru.	Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau
Byddwn yn hwyluso ac yn cydweithio ar o leiaf ddwy bartneriaeth a phrosiect cyfnewid y tu allan i Gymru yn flynyddol	Rydym wedi cydweithio ar 5 o brosiectau partneriaeth a chyfnewid y tu allan i Gymru. Ynghyd â'r British Council Cymru, Llywodraeth Cymru a'r British Council Ireland, rydym yn cydweithio ar ddigwyddiad amlieithog o'r enw 'Mamieithoedd' ar gyfer Gwyl Lenyddiaeth Ryngwladol Cúirt. Roedd hon i fod i'w chynnal yn Galway, Iwerddon, ond bydd bellach yn cael ei chyflwyno ar-lein ym mis Ebrill.	Mae 21 o brosiectau partneriaeth a chyfnewid y tu allan i Gymru wedi cael cefnogaeth gan Llenyddiaeth Cymru yn 19/20.	
Drwy ein hymyriad ni, mae o leiaf dau gomisiwn y flwyddyn yn cael eu dyfarnu i awduron profiadol gan sefydliadau eraill	Rhoddwyd 16 o gomisiynau i awduron profiadol gan sefydliadau eraill. Yn ddiweddar, lansiwyd ein Hadnoddau TGAU i fyfyrwyr sy'n astudio'n annibynnol gartref o ganlyniad i COVID-19. Ers y lansiad gwreiddiol ym mis Medi 2019, mae tudalennau'r adnoddau wedi cael eu gweld dros 25,000 o weithiau.	Rhoddwyd 43 o gomisiynau i awduron profiadol gan sefydliadau eraill.	
Mae o leiaf ddau egin awdur yn ymgysylltu â'n cyfleoedd proffil uchel yn flynyddol	Mae 23 o awduron ar ddechrau'u gyrfaedd wedi bod yn rhan o'n cyfleoedd proffil uchel. Rydym wedi gweld awduron y dyfodol o bob math yn ymateb i'n Beirdd Plant.	Mae cyfanswm o 54 o awduron ar ddechrau'u gyrfaedd wedi bod yn rhan o'n cyfleoedd proffil uchel.	

Canlyniadau Sefydliadol

Nodau Llwyddiant Gweithredol: **Monitro a Gwerthuso**

Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2020	Cynnydd Presennol 1 Ionawr – 31 Mawrth	Cynnydd Cyffredinol 1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020	Dull casglu data
Mae 70% o'n data o brosiectau gweithredol gweithgarwch wedi'i storio yn ein hwb monitro a gwerthuso canolog	Mae'r data sy'n cael eu storio yn ein porth monitro a gwerthuso canolog wedi cynyddu tua 10 pwynt canran yn y cyfnod uchod (o 55% i 65%). Mae hyn o ganlyniad i'n dulliau casglu data misol newydd fel rhan o'r Fframwaith Monitro a Gwerthuso. Mae gofyn i'r staff fewnbynnu data bob mis. Mae hyn yn cynnwys data cod post ar gyfer gweithgareddau a data sy'n olrhain cyfnodau datblygu ein prosiectau.	Hyd yma, mae tua 65% o'r data yn cael ei storio yn ein porth monitro a gwerthuso.	Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau a'r arolwg Marchnata a Chyfathrebu blynyddol
Mae 1 Adroddiad Blynyddol yn cyfleu ein heffaith wedi'i gylchredeg	Rydym ar hyn o bryd wrthi'n cynllunio Adroddiad Blynyddol a datganiadau ariannol 2019-20, a bydd hwn ar gael yn hydref 2020. Byddwn hefyd yn lansio ymgyrch feddal gyda phenawdau am y data yn gynnar yn yr haf.	Mae 1 Adroddiad Blynyddol (2018/2019) yn dangos ein heffaith wedi'i gylchredeg.	
Cynhyrchwyd 12 adroddiad gwerthuso misol a 4 adroddiad gwerthuso chwarterol	Dyma'r pedwerydd o'r adroddiadau gwerthuso chwarterol. Rydym wedi creu system fewnol wedi'i safoni i gasglu data'n fisol, ar ôl cyfuno'r holl ofynion adrodd. O hyn allan, bydd fersiynau cyhoeddus o'r adroddiadau gwerthuso chwarterol ar gael ar ein gwefan. Rydym bellach wedi creu fformat syml er mwyn i'r Uwch Dîm Rheoli gael adroddiad cynnydd misol yn ystod 2020/2021.	Mae 4 adroddiad gwerthuso chwarterol a 0 adroddiad gwerthuso misol wedi'u creu hyd yma.	
Caiff 70% o'r prosiectau newydd neu brosiectau parhaol eu cyflwyno i'r Uwch Dîm Rheoli, ac mae pob un yn cyfeirio at bwyntiau dysgu o'n dadansoddiad	Rydym yn diwygio ein system i gyflwyno syniadau o ganlyniad i newidiadau i'n rhaglen yn sgil COVID-19.	Hyd yma, mae 75% o'r prosiectau newydd rydym yn gweithio arnynt wedi cael eu cynnig a'u trafod yng nghyfarfodydd yr Uwch Dîm Rheoli.	

Canlyniadau Sefydliadol

Nodau Llwyddiant Gweithredol: Adnoddau Dynol

Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2020	Cynnydd Presennol 1 Ionawr – 31 Mawrth	Cynnydd Cyffredinol 1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020	Dull casglu data
Mae 40% o'r staff wedi bod i o leiaf dair sesiwn hyfforddi ar draws timau	Nid oes unrhyw sesiynau hyfforddi i dimau amrywiol wedi'u cynnal yn y cyfnod uchod. Byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd i'n staff fanteisio ar ystod o sesiynau a all wella'u datblygiad proffesiynol a'u gwybodaeth sefydliadol.	Mae cyfanswm o 8 sesiwn hyfforddi i'r holl dimau wedi cael eu cynnal, ac ar gyfartaledd mae 80% o'r staff wedi bod yn bresennol.	Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau
Mae o leiaf 2 aelod o staff wedi elwa ar gyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus (e.e. cyrsiau)	Mae 2 aelod o staff yn elwa o ddatblygu proffesiynol parhaus yn ystod y cyfnod hwn. Mae ein Swyddog Cyllid wrthi'n astudio ar gyfer cymhwyster cyfrifyddu AAT Lefel 4 ac mae ein Hintern Creadigol yn dilyn rhaglen hyfforddiant a mentora busnes fel rhan o'r Cynllun Interniaeth Greadigol Celfyddydau a Busnes.	Mae 3 aelod o staff hyd yma wedi elwa o gyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus.	
Mae lefelau boddhad staff wedi cynyddu o leiaf 7%	Bydd arolwg o les y staff yn cael ei gynnal ar ôl cwblhau'r Adolygiad Sefydliadol ac fel rhan o Gynllun Lles y Staff. Bydd hyn yn rhoi data sylfaenol ar gyfer y targed hwn.	Fel y nodwyd i'r chwith.	Dadansoddiad o ddiwylliant y cwmni fel rhan o'r Cynllun Llesiant Staff a'r broses Adolygu Datblygiad Perfformiad
Mae o leiaf 5% o'n cyflogeion, gwirfoddolwyr, contractwyr a Chyfarwyddwyr yn bobl dduon, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, mae gan 5% anableddau, ac mae 1 o'r rhain yn uwch aelod o staff ac yn aelod o'r Bwrdd (yn ddibynnol ar fod lleoedd gwag yn codi)	Mae 11.45% o'n gweithwyr, gwirfoddolwyr, contractwyr a Chyfarwyddwyr yn unigolion o gefndiroedd Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, ac mae 3 o'r rhain mewn swyddi uwch Mae gan 3% o'n gweithwyr, gwirfoddolwyr, contractwyr a Chyfarwyddwyr anableddau.	Fel y nodwyd i'r chwith.	Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau
Byddwn wedi gweithio gydag o leiaf 7 gwirfoddolwr	Rydym wedi gweithio gyda 18 o wirfoddolwyr yn y cyfnod uchod, a hynny ar amrywiaeth o'n prosiectau.	Rydym wedi gweithio gyda chyfanswm o 81 gwirfoddolwr ers 1 Ebrill 2019.	

Canlyniadau Sefydliadol

Nodau Llwyddiant Gweithredol: **Busnes Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd**

Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2020	Cynnydd Presennol 1 Ionawr – 31 Mawrth	Cynnydd Cyffredinol 1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020	Dull casglu data
Cynllun Ffrindiau Tŷ Newydd wedi'i lansio, ac o leiaf 30 o Ffrindiau newydd yn ymuno	Oherwydd COVID-19 mae cynllun Ffrindiau Tŷ Newydd, a fydd yn cyd-fynd â chynllun Ffrindiau Llenyddiaeth Cymru, wedi'i ohirio am y tro.	Fel y nodwyd i'r chwith.	Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau
Manylebau gwaith newydd wedi'u creu gan benseiri ar gyfer gwaith adfer brys sydd ei angen ar y tŷ gwydr	Mae hyn yn cael ei drafod â phenseiri, a'r rhagolwg yw y bydd y ffi bras ar gyfer y manylebau yn rhan o gostau Gwaith Tŷ Newydd 2019/2020.	Fel y nodwyd i'r chwith.	
Adnewyddu 2 ystafell wely i safon uchel	Ni chafodd unrhyw ystafelloedd gwely eu hadnewyddu yn y cyfnod hwn.	Mae 1 ystafell wely wedi'i hadnewyddu i safon uchel.	
Mae o leiaf 85% o fynychwyr Cyrsiau Tŷ Newydd yn cytuno bod eu hymweliad wedi'u helpu i ddatblygu fel awdur, a dywedodd 90% y byddant yn dychwelyd i'r ganolfan yn y dyfodol	Cytunodd 86% o'r rheini a oedd wedi bod ar gyrsiau yn Nhŷ Newydd bod eu hymweliad wedi'u helpu i wneud cynnydd fel awduron, a dywedodd 97% y byddent yn dychwelyd i'r ganolfan yn y dyfodol.	Fel y nodwyd i'r chwith.	

Canlyniadau Sefydliadol

Nodau Llwyddiant Gweithredol: Llywodraethu ac Ymgynghori

Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2020	Cynnydd Presennol 1 Ionawr – 31 Mawrth	Cynnydd Cyffredinol 1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020	Dull casglu data
Cynnal arolwg gyda grŵp cynrychioladol o o leiaf 70 unigolyn o grwpiau rhanddeiliaid ac sy'n cynrychioli partneriaid strategol o leiaf unwaith y flwyddyn	Er inni gyflawni'r targed hwn ym mis Rhagfyr 2019, mae arolygon ychwanegol ar raddfa fechan wedi'u creu i ddangos effaith ein gwaith ar grwpiau penodol o randdeiliaid. Er enghraifft, cytunai 83% o sampl o sefydliadau a oedd wedi cael cefnogaeth hwyluso gennym fod hynny wedi cyfrannu at ysgogi darpariaeth lenyddol newydd yng Nghymru.	Mae 1 arolwg rhanddeiliaid wedi'i gwblhau gan sampl o 85 o unigolion .	Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau
Cynnal cyfweiliadau neu drafod ein gwaith gyda rhwydwaith gynrychioladol o o leiaf 15 Cyfaill Beirniadol o leiaf unwaith y flwyddyn	Ni fu unrhyw gyfweiliadau â Ffrindiau Beirniadol yn ystod y chwarter hwn. Bydd yr Uwch Dîm Arwain yn ailasesu eu rhwydwaith presennol yn 2020/21 i ganfod cyfleoedd i recriwtio Ffrindiau Beirniadol.	I gyd, rydym wedi cyfarfod ag 17 Ffrind Beirniadol ers 1 Ebrill 2019.	
Cynnull 2 gyfarfod Grŵp Ymgynghori'r Bwrdd Rheoli, 10 cyfarfod Gweithrediadau'r Uwch Dîm Rheoli ac 1 sesiwn Cynllunio Creadigol i'r holl staff yn flynyddol	Cafodd 2 gyfarfod o Grŵp Cynghori'r Bwrdd Rheoli (Cyfarfodydd Bwrdd Argyfwng COVID-19) ac 17 cyfarfod o'r Uwch Dîm Rheoli – Gweithrediadau (cyfarfodydd COVID-19 bob yn eilddydd) eu cynnull. Cafodd y sesiwn Cynllunio Creadigol ym mis Mawrth ei gohirio oherwydd COVID-19.	I gyd, mae 5 o gyfarfodydd Grŵp Cynghori'r Bwrdd Rheoli, 24 cyfarfod o'r Uwch Dîm Rheoli – Gweithrediadau ac 1 sesiwn Cynllunio Creadigol i'r holl staff wedi'u cynnal.	
Rhannu dadansoddiad o adborth rhanddeiliaid drwy adroddiadau gwerthuso misol a chwarterol, a chyfeirio ato wrth wneud penderfyniadau	Yn Adroddiad Sefydliadol #3, penderfynwyd cynnwys gwybodaeth am wersi i'w dysgu ar lefelau Sefydliadol, Gweithredol a Gweithgareddau , a hynny o ganlyniad i adborth gan randdeiliaid . Byddwn yn parhau i wneud hyn yn Adroddiadau 2020/2021.	Fel y nodwyd i'r chwith.	Cynigion prosiect a chofnodion cyfarfodydd

Canlyniadau Sefydliadol

Nodau Llwyddiant Gweithredol: **Hwyluso'r Sector**

Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2020	Cynnydd Presennol 1 Ionawr – 31 Mawrth	Cynnydd Cyffredinol 1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020	Dull casglu data
Peidio darparu mwy na 10 prosiect yn uniongyrchol bob blwyddyn	Mae Llenyddiaeth Cymru ar hyn o bryd yn darparu 10 o brosiectau'n uniongyrchol . Fodd bynnag, oherwydd COVID-19, rydym yn ailasesu pob un.	Ers mis Ebrill 2019, mae Llenyddiaeth Cymru wedi bod yn darparu 10 o brosiectau'n uniongyrchol .	Ein hadroddia dau gwerthus o a chynnydd prosiectau
Cefnogi o leiaf 20 prosiect a gaiff eu harwain gan bartneriaid fel hwyluswyr neu bartneriaid eilaidd yn flynyddol	Rydym wedi cefnogi 17 o brosiectau sy'n cael eu harwain gan bartneriaid fel hwyluswyr neu bartneriaid eilaidd. Yn y flwyddyn ddiwethaf mae Llenyddiaeth Cymru wedi gweithio gydag ystod o bartneriaid uchel eu proffil. Er enghraifft, cysylltodd Penguin Random House ym mis Rhagfyr 2019 i ofyn am gymorth gyda'u cynllun poblogaidd, 'WriteNow'. Rhoesom gyngor am weithio yng Nghymru, am ddiddordebau awduron Cymru, a chymorth i gyfathrebu.	I gyd, rydym wedi cefnogi 98 o brosiectau sy'n cael eu harwain gan bartneriaid fel hwyluswyr neu bartneriaid eilaidd.	
Darparu cyllid a/neu gefnogaeth mewn nawdd i o leiaf 150 o unigolion, grwpiau a sefydliadau yn flynyddol	Yn ystod y cyfnod hwn, rhoesom 193 awr o gyllid neu gefnogaeth i 111 o sefydliadau neu unigolion . Ym mis Chwefror, bu ein Cydlynnydd Rhaglenni a Chyfathrebu yn nigwyddiad Scottish Literature Now yn Hamburg. Penderfynodd Llenyddiaeth Cymru fod yn rhan o'r ddirprwyaeth er mwyn cydweithio, trafod a meithrin perthynas â'n partneriaid rhyngwladol; y nod oedd edrych ar ddichonolrwydd cynnal, cyflwyno neu gyfrannu at Symposiwm posibl am lenyddiaeth Cymru a Llenyddiaeth am Gymru, mewn fformat tebyg.	I gyd, rydym wedi cwblhau dros 953 awr o waith hwyluso i'r sector, a hynny i 718 o unigolion, grwpiau a sefydliadau .	
Rydym wedi ysgogi o leiaf 4 prosiect llenyddol cynaliadwy hunan-gynhaliol mewn meysydd lle mae angen	Mae 3 prosiect llenyddol newydd, sy'n gynaliadwy ac yn cael eu cynnal gan y bobl eu hunain , wedi'u cyflwyno mewn ardaloedd lle mae angen ers mis Ionawr.	I gyd, mae 17 o brosiectau llenyddol cynaliadwy sy'n cael eu cynnal gan y bobl eu hunain wedi'u dechrau mewn ardaloedd ble mae angen ers mis Ebrill 2019.	

Gwersi Sefydliadol a Gweithredol i'w Dysgu

Gwersi Sefydliadol i'w Dysgu 1 Ionawr – 31 Mawrth 2020

- Oherwydd **COVID-19**, fel sefydliadau celfyddydol a diwylliannol eraill yng Nghymru, rydym wedi addasu'n sydyn ac yn effeithlon i ffordd newydd o weithio yn ystod y cyfnod ansicr hwn, er mwyn parhau i ddarparu gweithgareddau ledled Cymru.
- Mae **lles ein staff** yn flaenoriaeth i'r sefydliad wrth inni weithio o bell. Drwy arbrofi â gwahanol ddulliau o gyfathrebu rhwng aelodau o staff ar sail ddyddiol ac/neu wythnosol, rydym wedi gallu cynnal ysbryd gweithio cefnogol drwy'r tîm.
- Mae amryw o randdeiliaid wedi cydnabod ein bod yn **fwy tryloyw wrth rannu gwybodaeth reolaidd am y sefydliad** gyda'r sector a chynulleidfaoedd. Byddwn yn parhau i gyhoeddi ein cynnydd ac yn rhannu gwybodaeth â chydweithwyr a chynulleidfaoedd, gan chwilio am ffyrdd o esblygu ein dulliau cyfathrebu'n rheolaidd.
- Drwyddi draw, mae 2019/2020 wedi bod yn flwyddyn ddatblygu lwyddiannus i Llenyddiaeth Cymru. Byddwn yn parhau i **dreialu neu gefnogi gweithgareddau a phrosiectau gweithredol newydd** i sicrhau ein bod yn gweithio yn y ffordd fwyaf effeithiol a chynaliadwy, ac yn ailasesu pob prosiect o dan y Dangosyddion Perfformiad Allweddol, er mwyn sicrhau bod y modelau darparu'n addas.

Prosiectau Gweithredol 1 Ionawr – 31 Mawrth 2020

- Mae creu **senarios ariannol** wrth ymateb i COVID-19 yn rhoi syniad cliriach inni o sut y gallwn greu rhaglen newydd o weithgareddau ar gyfer 2020/2021 yn y ffordd orau. Mae angen inni wneud penderfyniadau ariannol a strategol ar sail yr amgylchiadau hyn.
- Mae angen inni barhau i ddiweddarau ein **Hasesiad Risg COVID-19** i sicrhau ein bod yn ymwybodol o'r risg bosibl a'r cyfleoedd a allai fod ar gael yn y misoedd nesaf.
- Mae ein data meincnodi 19/20 wedi dangos ein bod wedi tanamcangyfrif ein hallbynnau sefydliadol wrth greu ein **Nodau Llwyddiant Sefydliadol**. Byddwn yn defnyddio'r ffigurau hyn i ddiweddarau ein nodau llwyddiant ar gyfer cyfnod nesaf ein Cynllun Strategol 2019-2023 ac yn ceisio sicrhau mwy fyth o lwyddiant.
- Mae ein Cynllun Strategol 2019-2022, yn ogystal â chyfraniadau Ffrindiau Beirniadol, Cyfarwyddwyr a chleientiaid wedi creu sylfaen gref ar gyfer yr Amcanion a'r Prif Negeseuon yn y **Cynllun Marchnata a Chyfathrebu**. Byddwn yn defnyddio'r adborth hwn wrth inni ddatblygu Strategaeth Gyfathrebu arloesol a beiddgar ar gyfer 2020-2023.

Gwerthuso

Gwersi i'w dysgu o'n **Gweithgareddau**

Gweithgareddau	Gwersi i'w Dysgu 1 Ionawr – 31 Mawrth 2020	Camau Gweithredu / Argymhellion i'r Dyfodol
Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd	Er inni wneud y penderfyniad anodd i gau Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd , roeddem yn awyddus i ddarparu gweithgareddau i gynulleidfaoedd o bell, er mwyn sicrhau bod y ganolfan yn parhau'n berthnasol ac yn weithgar. Drwy arolygu sampl o'n cynulleidfa i ganfod eu barn, cawsom syniad o'r ffordd orau i gysylltu â'n cleientiaid dros y misoedd nesaf.	Byddwn yn defnyddio'r adborth hwn i ddatblygu a darparu gweithgareddau newydd, cyffrous (e.e. dosbarth meistr barddoniaeth ar-lein) er mwyn diddanu, ysbrydoli a grymuso ein cynulleidfa tra bo'r ganolfan ar gau.
Cystadleuaeth Farddoniaeth Cymru Ewro 2020	Ymunwyd â Chymdeithas Bêl-droed Cymru i lansio Cystadleuaeth Farddoniaeth Cymru Ewro 2020 fel rhan o brosiectau'r Children's Laurate for Wales a Bardd Plant Cymru . Dyma'r ail waith inni weithio â'r Gymdeithas Bêl-droed ac mae'r ddau brosiect wedi cael cryn sylw gan gynulleidfaoedd ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn y wasg.	Byddai'n fuddiol i barhau i fod yn bartner i sefydliadau uchel eu proffil y tu allan i'r sector celfyddydau a diwylliant er mwyn cyrraedd ystod eang o gynulleidfaoedd a rhoi hwb i broffil ein sefydliad ni.
Galwad am Awduron Cyfranogol	Er yr alwad beilot am awduron i wneud cais i ddarparu prosiectau Llên er Lles neu i gofrestru eu diddordeb i weithio gyda ni yn y dyfodol, roedd nifer y ceisiadau'n siomedig. Roedd yr alwad braidd yn anodd i'w datblygu, ac yn aml cafwyd hi'n anodd egluro'r cyfleoedd tymor byr a thymor hir roeddem yn eu cynnig.	Dylem fonitro'n agos y ceisiadau a llwyddiant galwadau yn y dyfodol er mwyn creu fframwaith clir ynghylch sut i ddod o hyd i dalent ymhlith awduron ar ddechrau'u gyrfaeodd a chynnig cyfleoedd datblygu proffesiynol eraill.